

Canllaw Ffynhonnell Rhif 8

DYFARNIADAU CAU TIR

BETH YW DYFARNIADAU CAU TIR?

Dechreuwyd cau tir mor bell yn ôl â'r canol oesoedd pan oedd darnau mawr o dir, a arferai gael eu ffermio ar y cyd (tir comin), yn cael eu torri i lawr yn barseli llai i gael eu ffermio gan un tiffeddiannwr. Cafodd llawer o'r penderfyniadau cynnar ynghylch cau tir eu gwneud trwy gytundeb lleol neu trwy ddyfarniadau tiffeddiannwr unigol, ac ychydig iawn o gofnodion sy'n dangos y dyfarniadau cau tir cynnar hyn.

Yn y 18fed ganrif, oherwydd newidiadau mewn dulliau ffermio a'r cynnydd yng ngwerth tir, daeth yn fwy effeithlon torri darnau mawr o dir comin yn barseli llai o dir. Dechreuodd tiffeddiannwr gyflwyno deisebau i'r Senedd i gau eu tiroedd. Daeth y rhain yn Ddeddfau Seneddol Preifat. Enwebwyd comisiynwyr i ailddyrrannu tir yn unedau o werth penodol a phenodwyd syrfewyr i lunio cynlluniau o'r tiroedd y dylid eu cau.

O 1801, pasiwyd Deddfau Cau Tir Cyffredinol. Penododd Deddf Cau Tir Gyffredinol 1845 Gomisiynwyr Cau Tir parhaol i ddosbarthu Dyfarniadau Cau Tir. Mae mwyafrif y cofnodion cau tir sy'n goroesi yn tarddu o'r cyfnod hwn.

Cofnodion dyfarniadau'r comisiynwyr a chynlluniau'r syrfewyr sydd bellach yn ffurfio'r cofnodion a elwir yn 'Dyfarniadau Cau Tir'. Dogfennau cyfreithiol yw'r rhain sy'n gofnodion perchnogaeth a dosbarthiad tiroedd a gaewyd. Mae gan Swyddfa Gofnodion Sir y Fflint Ddyfarniadau Cau Tir ar gyfer amryw o blwyfi ar gyfer y cyfnod 1777 i 1870 (Cyf: QS/DE/1-27). Mae cofnodion y Comisiynwyr ar gael ar gyfer rhai plwyfi hefyd ond mae llawer llai o'r rhain wedi goroesi (Cyf: QS/DEM/1-4).

BETH ALLAF EI DDARGANFOD O DDYFARNIADAU CAU TIR?

Mae dyfarniadau cau tir yn datgan y Ddeddf Seneddol a wnaethpwyd ac yna'n rhestru enwau'r comisiynwyr; enw perchennog y tir a gaewyd; disgrifiad o'r tir a gaewyd; rhestr o'r lleiniau tir a grëwyd, ac i bwy y cawsant eu dyrannu. Fel arfer maent yn dod gyda chynllun, ond NID BOB AMSER. Er enghraifft, nid oes cynllun yn dod gyda dyfarniad Llanarmon (sy'n cwmpasu Llanarmon, Llandegla a Bryneglwys yn Siroedd y Fflint a Dinbych) (Cyf: QS/DE/15).

Mae dyfarniadau cau tir yn ffynonellau pwysig ar gyfer astudio:

- Hanes lleol
- Hanes amaethyddol a defnydd tir
- Goblygiadau i Hawliau Tramwy
- Hanes economaidd

SUT ALLAF DDEFNYDDIO DYFARNIADAU CAU TIR YN ARCHIFDY SIR Y FFLINT?

Crëwyd y Dyfarniadau Cau Tir gan lys lleol y Sesiynau Chwarter, ac maent yn ffurfio rhan o'r gyfres hon o gofnodion (Cyf: QS/DE a QS/DEM). Cedwir rhai Dyfarniadau Cau Tir mewn casgliadau preifat a chaiff y rhain eu croesgyfeirio yn y catalog Sesiynau Chwarter. Mae llyfr J. Chapman, 'A Guide to Parliamentary Enclosures in Wales' (gweler gwybodaeth bellach isod) hefyd yn rhestru pob Dyfarniad Cau Tir yn ôl plwyf ac mae'n datgan cyfeirnodau unigol. Mae Dyfarniadau Cau Tir yn dod ar ffurf dogfennau a chynlluniau memrwn mawr, a bydd angen i chi neilltuo'r bwrdd mapiau i edrych arnynt. Mae'r mynegai (QS) ar silffoedd agored yn yr ystafell chwilio. Dylech neilltuo pob Dyfarniad unigol yn defnyddio **ffurflen neilltuo dogfen**. Dylech ysgrifennu cyfeirnod y ddogfen (ynghyd â'ch enw, rhif sedd a'r dyddiad) ar y ffurflen a'i chyflwyno wrth y ddesg ymholiadau i neilltuo'r cofnodion.

Mae prosiect a ariennir gan CYMAL (2009) wedi ein galluogi i warchod ac ail-becynnu Dyfarniadau Cau Tir Sir y Fflint, fel eu bod yn fwy hygyrch ac fel bo modd eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dylech drin yr archifau anhepgor hyn â gofal.

GWYBODAETH BELLACH

Mae'r llyfrau canlynol ar gael ar silffoedd yr ystafell chwilio:

Chapman, J. Parliamentary Enclosures in Wales. Cardiff. 1992.

Hollowell, S. Enclosure Records for Historians. Chichester. 2000.

Smith, D. Maps & Plans for the local historian and collector. London. 1987.

Gallwch hefyd edrych ar wefan yr Archifau Cenedlaethol ar www.nationalarchives.gov.uk, i ddarllen eu canllaw ymchwil cynhwysfawr am Ddyfarniadau Cau Tir.